ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru
Medi 2018

**Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol i ddefnyddwyr ystadegau o Gymru ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.**

**Ceir rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein calendr cyhoeddiadau**

## Cyfiawnder Cymdeithasol a Chydraddoldeb

**Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD)**
Rydym yn dechrau ar y gwaith o ddrafftio ymgynghoriad ar y dangosyddion arfaethedig ar gyfer WIMD 2019, i'w cyhoeddi ddiwedd Hydref. Fel rhan o'r broses ymgynghori byddwn yn cynnal sesiynau gweminar yn ystod yr hydref, a byddwn yn trafod y cynigion mewn fforymau gwahanol, gan gynnwys PCYC.

**Cartrefi Islaw'r Incwm Cyfartalog yng Nghymru (HBAI)**
Ar 26 Mehefin gwnaethom gyhoeddi dadansoddiadau a thablau manwl ynghylch data tlodi Cymru o gyfres HBAI yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Cysylltwch â ni i roi eich adborth , neu i ofyn am ragor o wybodaeth: ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru

## Llesiant Cymru

Ar 20 Medi fe wnaethom lwyddo i gyhoeddi adroddiad Llesiant Cymru 2017-2018, dyma ein hail adroddiad statudol. Yn dilyn yr adborth a gafwyd i'n harolwg defnyddwyr mae'r fformat yn debyg iawn i'r fformat yn y flwyddyn gyntaf. Fodd bynnag, rydym wedi dewis canolbwyntio ar un maes, a'r thema eleni yw llesiant plant. Rydym wedi ychwanegu mwy o gynnwys sy'n ymwneud â llesiant plant, gan ddefnyddio data newydd sydd ar gael.

Ar y cyd â'r prif adroddiad, rydym wedi cyhoeddi dogfen grynhoi a chyfres o sleidiau, sy'n defnyddio'r canfyddiadau allweddol sy'n ymwneud â llesiant plant ac sydd wedi'u cynnwys yn naratif y nodau.

Byddwn yn parhau i ddiweddaru tudalennau'r dangosyddion wrth i ddata newydd ddod ar gael.

## Trafnidiaeth

**Cyhoeddiadau:**
Rydym wedi cyhoeddi datganiadau ar nifer y damweiniau ar y ffyrdd sydd wedi'u cofnodi gan yr heddlu, traffig ffyrdd, cludiant awyr, cyflymder cerbydau ar yr A55, cyflymder cerbydau ar draffyrdd Cymru, hyd a chyflwr y ffyrdd.

**Stats Cymru**
Mae'r ychwanegiadau diweddaraf i setiau dara StatsCymru yn cynnwys ystadegau damweiniau ffordd, cludiant awyr, a hyd a chyflwr y ffyrdd.

## Yr Amgylchedd a Thai

**Arolwg o Gyflwr Tai yng Nghymru 2017-18 (WHCS)**
Ar ar ôl naw mis o waith maes llwyddiannus, cafodd 2,552 o archwiliadau eiddo eu cwblhau erbyn diwedd mis Ebrill, sy'n uwch na'r 2,500 a ddymunwyd. Ym mis Mawrth, cynhaliwyd arolwg defnyddwyr i gasglu safbwyntiau o ran y pynciau, blaenoriaethau a ffurf ein hallbynnau ac mae crynodeb o'r gwaith hwn bellach ar gael ar ein gwefan Arolwg Cyflwr Tai Cymru 2017-18 – Opsiynau ar gyfer Allbynnau. Mae hyn, ochr yn ochr â'r trafodaethau a gynhelir gyda'n cydweithwyr ym maes polisi, wedi darparu gwybodaeth ar gyfer ein cynlluniau o ran lledaenu data a bydd y Datganiad Ystadegol Cyntaf yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd, gyda chymaint o ddadansoddiadau pennawd â phosibl yn yr amser sydd ar gael. Bydd adroddiadau manwl ar y pynciau penodol yn dilyn Q1 2019. Bydd yr amcangyfrifon tlodi tanwydd mwyaf diweddar hefyd ar gael yn gynnar yn 2019.

**Adnodd Dadansoddi'r Stoc Dai i Gymru (HSAR)**
Mae fersiwn profi cysyniad cychwynnol yr HSAR bellach ar gael ac yn ddiweddar tynnwyd yr ystadegau enghreifftiol cyntaf. Mae'r system fewnol ar gyfer profi yn cynnwys Tystysgrifau Perfformiad Ynni (EPC), Rhentu Doeth Cymru, data'r Gofrestrfa Tir a Swyddogion rhenti ynghyd â data gan awdurdod lleol Powys a Trivallis, un o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mwyaf Cymru. Dros y misoedd nesaf bydd y gwaith yn canolbwyntio ar lanhau data a chysylltu gwaith, datblygu ateb hirdymor ar gyfer lletya'r HSAR a llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd, a fydd yn darparu gwybodaeth o ran sut y caiff data eu rhannu'n allanol. Bydd adroddiad cynnydd yr HSAR yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi.

**Datganiadau Ystadegol ar Dai**
Ar ôl tynnu'r wybodaeth am ddata ôl-ddyledion rent tai cymdeithasol oddi ar ein gwefan dros dro oherwydd pryderon ynghylch rhywfaint o'r data a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol, cyhoeddwyd data diwygiedig ar ôl-ddyledion rent ar 11 Gorffennaf 2018. Cyhoeddwyd datganiadau blynyddol ar Gwerthiannau Tai Landlordiaid Cymdeithasol, 2017-18'; 'Digartrefedd yng Nghymru 2017-178' a 'Stoc Dai Landlordiaid Cymdeithasol a Rhent ar 31 Mawrth 2018' yn ystod Gorffennaf ac Awst 2018.

**Prosiect data Digartrefedd ar sail yr unigolyn**
Mae Canolfan Gydweithredol Tystiolaeth Tai y DU (CaCHE) a Llywodraeth Cymru yn cyllido ar y cyd astudiaeth ddichonoldeb sy'n canolbwyntio'n bennaf ar edrych ar ddichonolrwydd cyflwyno system gasglu, cofnodi a dadansoddi data ar lefel yr unigolyn mewn perthynas â digartrefedd yng Nghymru. Dr Ian Thomas o Brifysgol Caerdydd fydd yn arwain y prosiect a bydd yn gweithio'n rhan amser gyda Llywodraeth Cymru am flwyddyn.

**Data ar Adeiladu Tai Newydd**
Fel rhan o'r broses barhau o adolygu'r wybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chyhoeddi ar adeiladu tai newydd yng Nghymru. mae KAS yn cynnal trafodaethau ar hyn o bryd gyda chydweithwyr ym maes polisi ynghylch yr opsiynau posibl ar gyfer newid gyda'r nod o wella ei hansawdd, ei chwmpas a'i chysondeb.

**Grŵp Ystadegau Tai Traws-lywodraethol**
Ym mis Mai, cyhoeddodd y Dirprwy Ystadegydd Gwladol yn ONS flog yn tynnu sylw at y bwriad i wneud gwaith traws-lywodraethol ystadegau tai mewn ymateb i adolygiad diweddar y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Reoliadau. Mae'n tynnu sylw at y gwaith rydym eisoes wedi'i gynllunio yng Nghymru ar gyfer ystadegau tai, gan bwysleisio ar yr un pryd, yr ymrwymiad ledled y DU i gydweithio er mwyn gwella ystadegau tai. Cyhoeddwyd cynllun gwaith hefyd.
Ym mis Awst, aeth tudalen Ystadegau Tai a Chynllunio Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth y DU yn fyw. Mae'r dudalen yn cynnwys dolenni at Drosolwg o'r Ystadegau Tai a Chynllunio a Chanllaw iddynt.

ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Amcangyfrifon Angen a Galw am Dai**

Mae amcangyfrifon o’r angen am dai ychwanegol yn y dyfodol yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r angen newydd sy'n codi a'r angen sydd heb ei ddiwallu eisoes. Cynhyrchwyd yr amcangyfrifon diweddaraf o anghenion tai yn y dyfodol yng Nghymru gan y diweddar Alan Holmans ac fe'u cyhoeddwyd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru (PPIW) fis Hydref 2015. Mae ffigurau Holmans yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd sydd bellach yn hen ac nid ydynt yn adlewyrchu'r tueddiadau diweddaraf o ran poblogaeth a chartrefi.

Mae galw o fewn Llywodraeth Cymru, ac yn ehangach, am amcangyfrifon cyfredol o anghenion tai yn y dyfodol (gan gynnwys ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a phenderfyniadau polisi tai). Mae gwahanol ddulliau o bennu anghenion tai yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gan gynnwys offeryn Asesu Angen a Galw Tai yr Alban. Sefydlwyd grŵp technegol rhan ddeiliaid allanol yn ddiweddar i roi mewnbwn i'r trafodaethau hyn - mae'r grŵp yn cynnwys arbenigwyr o awdurdodau lleol a CLILC

## Yr Economi a'r Farchnad Lafur

Rydym wedi cyhoeddi'r datganiadau canlynol: mynegai gwasanaethau'r farchnad a'r mynegai cynhyrchu yng Nghymru yng Nghymru (Gorffennaf 19); penawdau ystadegau diweddaraf ar y farchnad lafur (Medi 11); proffiliau o'r economi a'r farchnad lafur ranbarthol diweddaraf (Gorffennaf 11); ystadegau'r economi a'r farchnad lafur ar gyfer y Sectorau â Blaenoriaeth (Mehefin 28); twf swyddi Cymru (Mehefin 21); ystadegau'r farchnad lafur yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth (Mehefin 20); allforion Cymru (Medi 6); Incwm Gwario Gros Aelwydydd fesul Rhanbarth (Mai 24).

## Iechyd

Er mwyn helpu defnyddwyr i ddod o hyd i ystadegau iechyd a gofal mae offeryn rhyngweithiol bellach ar gael.

Mae'r offeryn yn cynnwys datganiadau presennol a blaenorol sy'n trafod amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud ag iechyd a gofal yng Nghymru. Mae modd chwilio yn ôl pwnc, sefydliad, daearyddiaeth neu chwilio am allweddair.

Mae'r gwaith o ddatblygu'r offeryn yn mynd yn ei flaen o hyd, a byddwn yn croesawu adborth arno

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni: ystadegau.iechyd@llyw.cymru

## Addysg

Rydym wedi cychwyn allbwn newydd sy'n ymwneud â'r rhaglenni dysgu prentisiaeth a ddechreuwyd, sy'n cynnwys dangosfwrdd rhyngweithiol. Bydd yn darparu data dros dro, sy'n fwy amserol, a hynny bob chwarter. Caiff y data eu cwblhau wrth i'r canlyniadau terfynol gael eu cyhoeddi ym mis Chwefror.

Ar 20 Medi, cyhoeddwyd dau set o ystadegau arbrofol a oedd yn ymwneud â datblygiad mesurau perfformiad cyson ar gyfer chweched dosbarth ysgolion a cholegau addysg bellach

I gael rhagor o wybodaeth neu i gyflwyno safbwyntiau am y naill neu'r llall o'r datblygiadau hyn, cysylltwch â ystadegau.addysgol16@llyw.cymru

ystadegau ar gyfer cymru statistics for wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Arolwg Cenedlaethol**

Ym mis Mehefin 2018, fe wnaethom gyhoeddi'r datganiad cyntaf o ganlyniadau 2017-18 ynghyd â thablau a siartiau yn ein dangosydd canlyniadau

Nawr rydym yn gweithio ar gyfres o fwletinau ar bynciau penodol. Hyd yn hyn rydym wedi cyhoeddi'r bwletinau canlynol:

- Iechyd y boblogaeth – ffordd o fyw (Saesneg yn unig)
- y defnydd o'r we a sgiliau digidol (Saesneg yn unig)

Mae modd gweld rhestr lawn o'r bwletinau blaenorol a rhai sydd ar y gweill ar Wefan yr Arolwg Cenedlaethol.

Mae gwaith maes 2018-19 ar y gweill. Mae'r pynciau sydd wedi'u cynnwys yn 2018-19 i'w gweld ar ein gwefan.

Rydym yn cwblhau'r holiadur ar gyfer 2019-20 ar hyn o bryd. I weld y cwestiynau y cytunwyd arnynt, ewch i gwestiynau daenlen Excel.

Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol, neu cysylltwch â ni.

**Manylion Cyswllt ar gyfer Ystadegau Llywodraeth Cymru**

**Ymholiadau cyffredinol yn ymwneud ag ystadegau**
E-bost: desg.ystadegau@llyw.cymru Ffôn: 03000 604400

**Yn benodol i'r pwnc**
https://llyw.cymru/statistics-and-research/about/contacts-statistics/?lang=cy

**Twitter**
https://twitter.com/ystadegaucymru

**Gwasanaeth newyddion a hysbysiadau e-bost Llywodraeth Cymru**
https://llyw.cymru/news-alerts/?lang=cy

**Ymholiadau gweinyddol**
E-bost GweinydduGGD@llyw.cymru